

## **Adolygiad o unrhyw nofel Gymraeg a gyhoeddwyd yn 2016**

Mentrodd tri ar y gystadleuaeth hon, a diddorol oedd sylwi ar wahanol ddulliau'r tri adolygydd. Y mae'r tri yn gwbl ddiwyll.

**Deryn Du:** Cyfieithiad Sian Northey o **Pijin** gan Alys Conran sydd dan sylw yma. Mae'n amlwg fod Deryn Du wedi mwynhau'r gyfrifol gan mai canmoliaeth yn unig sydd ganddo. Nid yw'n adolygiad treiddgar, efallai, ond gellir yn hawdd ddychmygu adolygiad fel hwn yn ymddangos mewn papur bro neu rywle ar y cyfryngau cymdeithasol.

**Ellis: Pant y Wennol** gan Ruth Richards a adolygir yma, ac unwaith eto, canmoliaethus yw'r cyfan.

Mae yna ymgais deg ar ddadansoddi rhyw gymaint yn yr adolygiad hwn. Dwi'n credu mai syniad da oedd y penawdau y mae'r adolygydd yn eu defnyddio. Mae'n dod i'r casgliad ysgubol mai hon yw'r nofel orau iddo erioed ei darllen. Canmoliaeth yn wir! Cofier fod tynnu sylw at bethau sydd ddim yn plesio cymaint yn rhan o waith adolygydd hefyd.

**Heulyn:** Y mae Heulyn yn trafod **Ymbelydredd** gan Guto Dafydd. Dyma adolygiad llawer iawn manylach a fforensig. Ceir trafodeth fanwl ar holl athroniaeth y nofel, pwy a beth a ddylanwadodd arni yn ogystal â'i chreffft. Y mae'n adolygiad mwy swmpus na'r ddau arall hefyd, ac mae llawer iawn i'w ganmol. Ond, mae yna un cwestiwn, ai adolygiad ydi hwn neu draethawd. Y mae'n swnio fel truth academaidd yn aml iawn, a chofier fod yna bwrpas penodol i adolygiad, a'r pwrpas hwnnw'n wahanol i bwrpas traethawd.

Deuthum i'r casgliad y byddwn i'n angharedig yn peidio dyfarnu'r wobwr i Heulyn, a gallaf gredu petai'r Observer yn cynnwys adolygiadau yn Gymraeg mai dyna lle down i ar draws yr adolygiad hwn.

**Dafydd J. Pritchard**